

Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

Clinig 1192 Laser and Beauty

Dyddiad yr arolygiad: 22 Awst 2022

Dyddiad cyhoeddi: 22 Tachwedd 2022



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad



Canfuom fod Clinig 1192 Laser and Beauty wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion mewn amgylchedd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda.

Roedd gan y rheolwr cofrestredig y sgiliau priodol i ddarparu triniaethau diogel. Roedd y rheolwr cofrestredig hefyd yn dangos gwybodaeth a dealltwriaeth dda o'r mesurau llywodraethu sy'n ofynnol i redeg y gwasanaeth yn ddiogel ac yn effeithiol.

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.



Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd ar 1192 Laser and Beauty ar 22 Awst 2022

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un arolygydd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol, ar gael ar ein [gwefan](#).



Ansawdd profiad y claf



Crynodeb cyffredinol

Canfuom fod y gwasanaeth wedi ymrwymo i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion yn y clinig. Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn darparu lefelau priodol o breifatrwydd ac urddas i gleifion. Roedd y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl, am y triniaethau sydd ar gael, i'w helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu diweddarau a'u cynnal a'u cadw'n dda.
- Mae'r lleoliad yn gwbl hygyrch i'r cleifion ag anawsterau symudedd

Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Dylai'r staff sicrhau bod copïau o'r daflen wybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben ar gael yn yr ystafelloedd triniaeth i gleifion eu gweld

Darparodd y cleifion y sylwadau canlynol i ni:

“Mae'r staff yn fendigedig yn gwneud i chi deimlo'n ddiogel ac wedi ymlacio.”

“Gwasanaeth ffantastig”



Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol

Canfuom fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion. Roedd trefniadau addas ar waith ar gyfer cynnal a chadw'r offer golau pwls dwys/laser a sicrhau eu diogelwch parhaus. Roedd trefniadau da ar gyfer atal a rheoli heintiau yn amlwg.

Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Gwelsom fod y lleoliad yn lân, yn daclus ac mewn cyflwr da

Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Dylai rheolwr y practis sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol

Roedd gan rheolwr y practis a phob gweithredwr laser arall y sgiliau priodol a'r wybodaeth berthnasol i gyflawni triniaeth ddiogel i gleifion. Roedd ystod eang o bolisiau a gweithdrefnau cyfredol ar waith.

Yr hyn a ganfuom a wnaeth y gwasanaeth hwn yn dda

- Roedd polisi a gweithdrefn gwynion briodol ar waith

Lle gallai'r gwasanaeth wella

- Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella

Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu o fewn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. Mae'r pryderon hyn wedi'u hamlinellu yn yr atodiadau ac yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a gwella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, mae AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

